# CLWB PLANT TRWY'R POST

Pecyn wythnosol 33
09/11/20

# Y wledd fawr

Stori a gweithgareddau i'w gwneud gartref
tra dydyn ni ddim yn gallu cyfarfod.

**Paid â phoeni os na wnei di bopeth.
Gwna yr hyn yr wyt yn ei ffansïo a chael hwyl!**




**Paratowyd y pecyn hwn gan:**
Andy Hughes - Saint y Gymuned, Susan Williams - Cynllun EFE a Chapel Caersalem, Caernarfon,
Nia Williams - Capel y Drindod Pwllheli, Jennifer Roberts - Eglwys Unedig Jerwsalem Bethesda
gyda chymorth, syniadau ac adnoddau gan Mair Roberts, Kathryn Williams, Rachel Hughes
a Gwyn Rhydderch


An English version is also available


Dalier sylw os gwelwch yn dda. Am resymau hawlfraint dylai'r pecyn hwn gael ei ddosbarthu'n gyflawn ac yn rhad ac am ddim. Nid yw unrhyw adran o'r pecyn i gael ei ddefnyddio ar wahân neu ei gopïo gan unrhyw gyhoeddiad arall heb yn gyntaf gael caniatâd. Cysylltwch ag Ahughes@saintygymuned.org



# Stori



### Fersiwn Beibl.net

Clywodd un o'r bobl oedd yn eistedd wrth y bwrdd hyn, a dwedodd wrth Iesu, “Mae'r rhai fydd yn cael bwyta yn y wledd pan ddaw Duw i deyrnasu wedi'u bendithio'n fawr!”

Atebodd Iesu: “Roedd rhyw ddyn wedi trefnu gwledd fawr a gwahodd llawer o bobl iddi. Pan oedd popeth yn barod, anfonodd ei was i ddweud wrth y rhai oedd wedi cael gwahoddiad, ‘Dewch, mae'r wledd yn barod.’

Ond dyma bob un ohonyn nhw yn dechrau hel esgusion. Dyma un yn dweud, ‘Dw i newydd brynu ychydig o dir, ac mae'n rhaid i mi fynd i'w weld. Wnei di f'esgusodi fi os gweli di'n dda?’ Dyma un arall yn dweud, ‘Dw i newydd brynu pum pâr o ychen, a dw i'n mynd i roi prawf arnyn nhw. Wnei di f'esgusodi fi os gweli di'n dda?’ A dyma un arall eto yn dweud, ‘Dw i newydd briodi, felly alla i ddim dod.’



Felly dyma'r gwas yn mynd yn ôl a dweud wrth ei feistr beth oedd wedi digwydd. Roedd y meistr wedi gwylltio, ac meddai wrth y gwas, ‘Dos i'r dre ar unwaith, a thyrd â'r bobl sy'n cardota ar y strydoedd i mewn yma – y tlawd, y methedig, pobl sy'n gloff ac yn ddall.’ Pan ddaeth y gwas yn ôl dwedodd wrth ei feistr, ‘Syr, dw i wedi gwneud beth ddwedaist ti, ond mae yna le ar ôl o hyd.’ Felly dyma'r meistr yn dweud, ‘Dos allan o'r ddinas, i'r ffyrdd a'r lonydd yng nghefn gwlad. Perswadia'r bobl sydd yno i ddod. Dw i eisiau i'r tŷ fod yn llawn. Fydd yna ddim lle i neb o'r bobl hynny gafodd eu gwahodd! Fyddan nhw ddim yn cael tamaid o'r wledd dw i wedi'i threfnu.’”

*Luc 14:15-24 Beibl.net*


### Fersiwn syml

Un tro pan oedd Iesu yn cael pryd bwyd, dywedodd un o’r gwestai, “Mae’r rhai sydd yn cael bwyta yng ngwledd Duw wedi’u bendithio’n fawr.”

“Gwrandewch ar y stori hon,” atebodd Iesu.

“Un tro trefnodd dyn wledd fawr a gwahodd llawer o bobl. Pan oedd popeth yn barod dywedodd wrth ei was, ‘Dos i ddweud wrth y gwesteion fod y wledd yn barod.’ Dywedodd y gwestai cyntaf wrth y gwas, ‘Allai ddim dod oherwydd dwi newydd brynu cae ac mae angen i mi fynd i gael golwg arno.’ Dywedodd yr ail westai, ‘Does gen i ddim amser i ddod oherwydd dwi newydd brynu ychen ac mae’n rhaid i mi fynd i’w gweld yn aredig.’ Roedd y trydydd gwestai newydd briodi ac yn methu mynd. Doedd yna neb am gadw ei addewid a mynd i’r wledd.

Aeth y gwas adref a dweud beth oedd wedi digwydd. Dywedodd ei feistr wrtho, ‘Dos allan a thyrd â’r holl bobl dlawd a newynog yma. Dwi eisiau i’r tŷ fod yn llawn.’ Daeth y gwas yn ei ôl gyda llu o bobl. Nawr roedd y tŷ’n llawn o fobl ond doedd dim lle i’r rhai oedd wedi cael gwahoddiad yn y lle cyntaf.



# Cwestiynau i’w trafod

Ar ôl darllen y stori gyda’ch gilydd, fe allech chi drafod y cwestiynau hyn fel teulu:

1. Os buaset yn gallu cael parti, pwy fuaset ti’n rhoi gwahoddiad iddyn nhw?
2. Sut fuaset ti’n teimlo pe byddai’r bobl oeddet ti wedi eu gwahodd yn gwneud esgusodion i beidio â dod i’r parti?
3. Sut fath o barti wyt ti’n ei feddwl fyddai Duw yn ei drefnu?
4. Pwy wyt ti’n meddwl sy’n cael gwahoddiad i barti Duw?




# Stori i'w lliwio

# Dameg y wledd

www.lambsongs.co.nz Gan Jill Kemp (Cyf. Susan Williams) Lluniau: Richard Gunther




Gwna amser yn dy fywyd ar gyfer pethau Duw a phaid ag anghofio gofalu am y tlawd a'r diymadferth yn y byd ac fe gei di dy fendithio.




Un diwrnod cafodd Iesu wahoddiad i fynd i gael pryd o fwyd yng nghartref Pharisead adnabyddus. Roedd pawb yn ei wylio. Adroddodd y stori hon i'r Pharisead.



"Fe wnaeth dyn baratoi gwledd fawr. Pan oedd popeth yn barod anfonodd ei was i wahodd ei ffrindiau i wledda.



Ond fe wnaeth pawb oedd wedi eu gwahodd esgusion. Dywedodd y person cyntaf, ' Fedra i ddim dod oherwydd fy mod wedi prynu darn o dir ac mae'n rhaid i mi fynd i'w weld.'




Atebodd y person nesaf oedd wedi cael gwahoddiad i'r wledd, ' Rydw i wedi prynu pump o wartheg ac mae'n rhaid i mi weld os ydyn nhw'n gallu cydweithio fel tîm wrth iddyn nhw aredig y tir, felly fedra i ddim dod.'



Dywedodd person arall oedd wedi cael gwahoddiad i'r wledd na allai ddod oherwydd ei fod newydd briodi. Roedd pawb yn rhy brysur i fynd i'r wledd.



Roedd y dyn roddodd y gwahoddiad mor siomedig ac meddai wrth y gwas,'Dos i'r lonydd a'r lonydd bach yn y ddinas a thyrd â'r bobl dlawd, y rhai sydd wedi brifo a'r rhai sy'n ddall i fy ngwledd.'



'Cofia di eu hannog nhw i gyd i ddod. Mae digon o le i bawb.' Cymer ofal o'r tlawd a'r diymadferth yn ein byd ac fe gei di dy fendithio."

# Gêm Bwrdd




**Bydd angen:** Cownteri, dis
**Sut i chwarae:**
- Mae pob chwaraewr yn cymryd tro i daflu'r dis ac yn symud ar hyd y bwrdd
- Mae chwaraewyr yn mynd i fyny'r ysgolion gwyrdd ac i lawr y llithrennau coch.
- Pwy fydd y cyntaf i gyrraedd y parti?

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
|  | | 61 | Rhy brysur 60 | 59 | Llawn bywyd 58 | 57 | 56 |
| 48 | 49 | 50 | 51 | 52 | 53 | Cael briodi 54 | 55 |
| 47 | 46 | 45 | 44 Byw yn y cefn gwlad | 43 | 42 | 41 | 40 |
| 32 | 33 | 34 Dall | 35 | Prynu ychen 36 | 37 | 38 | 39 |
| 31 | Prynu cae 30 | 29 | 28 | 27 | 26 | 25 | 24 |
| 16 | 17 | 18 | 19 | 20 | 21 Cardotwr | 22 | 23 |
| 15 | 14 | 13 | 12 | 11 | 10 | 9 | 8 |
| **Derbyn gwahoddiad** | 1 | 2 | 3 | 4 Tlawd | 5 | 6 | 7 |

## Dolenni



Fideo o'r stori
https://www.youtube.com/watch?v=AV8YHZ2H8vI




Fideo o gân yr wythnos
https://youtu.be/PQtWi4rwxh4




Cartŵn o'r stori (Saesneg)
https://www.youtube.com/watch?v=LEbwiQvo5k4





# Gweddi fer

O Dduw, diolch i Ti am yr hanes hwn adroddodd Iesu am y wledd fawr.
Diolch i Ti am y gwahoddiad rydyn ni'n ei gael trwy Iesu i dy wledd Di.
Helpa ni i sylweddoli mor rhyfeddol a gwych wyt Ti. Helpa ni i ddod i dy adnabod yn well a derbyn dy wahoddiad i dy wledd arbennig Di. Amen.

# Posau

## Bwyd gwledd

Cyfra sawl cimwch ac afal  sydd yn y llun o'r bwydydd yna noda'r nifer yn y bylchau isod. Wedi i ti wneud hyn bydd gen ti'r cyfeirnod ar gyfer dod o hyd i adnod yn y Beibl. Os nad oes gen ti Feibl gelli ddarllen yr adnod ar-lein yn www.beibl.net


Datguddiad ___ adnod ___






## Hanner llun!

Fedri di gopïo'r llun yn y grid gwag a llenwi'r rhannau sydd ar goll?



## Y tri esgus

Dilyna'r llinellau i ddarganfod pa ddau lun o'r stori sy'n mynd gyda'i gilydd.



# Crefft


## TORCH GROESO





**I wneud y dorch byddi angen:**

Cambren weiren,
siswrn, pren mesur,
stribedi o ddefnydd.





**1.** Plyga'r cambren i wneud siâp calon.



**2.** Plyga'r bachyn yn siâp deigryn.



**3.** Torra ddarn o ddefnydd tua 30cm o hyd a 6cm o led.



**4.** Plyga'r defnydd yn ei hanner ac yna ei lapio'n dynn o gwmpas y bachyn.



**5.** Pan mae'r bachyn wedi ei orchuddio, tynna ddau ben y defnydd yn dynn a'u clymu.



**6.** Torra ragor o stribedi yn mesur 20cm o hyd ac 1.5cm neu 2cm o led.



**7.** Ar gyfer gorchuddio'r galon byddi angen tua 100 o stribedi!



**8.** Clyma'r stribedi o ddefnydd yn sownd yn y galon.



**9.** Gwna'n siŵr fod y stribedi wedi eu clymu'n dynn ac wedi eu gwthio'n agos at ei gilydd fel bod yna ddim bylchau rhyngddynt.



**10.** Nawr mae'r dorch siâp calon wedi ei chwblhau!

**I wneud yr arwydd croeso byddi angen:**

Cerdyn gwyn,
pinnau ffelt, pensil,
siswrn, glud, edau.




**11.** Plyga'r cerdyn yn ei hanner a gwna lun calon tua 8cm o hyd. Torra'r galon allan.




**12.** Ysgrifenna 'Croeso' ar un o'r calonnau a 'Welcome' ar y galon arall.




**13.** Torra ddarn o edau. Gorchuddia un o'r calonnau, yr ochr heb ysgrifen, â glud a gosoda'r edau yn y canol. Glyna'r calonnau'n sownd yn ei gilydd.








**14.** Clyma'r edau yn handlen y galon. Gwna'n siŵr fod y galon yn hongian yng nghanol y dorch.

# Chwilair

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| S | R | W | A | M | N | E | G | F | O | L | P |
| A | T | D | S | D | DD | C | W | R | A | R | U |
| L | S | R | D | R | E | F | L | N | I | DD | M |
| A | I | C | Y | T | A | I | A | O | H | T | P |
| DD | E | FF | Y | D | T | R | D | CH | FF | R | A |
| H | M | E | O | L | O | I | T | LL | Y | W | G |
| P | Y | R | L | C | D | E | S | G | U | S | W |
| S | A | N | I | D | R | S | DD | Y | N | LL | A |
| B | W | T | F | LL | A | U | E | F | Y | E | H |
| D | N | E | Y | A | C | R | L | TH | R | D | O |
| A | T | L | A | W | D | O | W | D | P | A | DD |
| LL | Y | CH | E | N | B | L | G | W | A | S | A |

BAROD
BWYTA
CARDOTA
CLOFF
DALL
DINAS
DREF
ESGUS
FFYRDD
GWAHODD
GWAS
GWLAD
GWLEDD
GWYLLTIO
IESU
LLAWN
MAWR
MEISTR
PRIODI
PRYNU
PUMP
SAL
STRYDOEDD
TLAWD
TIR
YCHEN

# Sialensau





## Gwahoddiad

Rwyt ti'n cael dy wahodd i'r parti gorau erioed, parti'r Brenin Iesu.
Cynllunia wahoddiad i Ysgol Sul dros Zoom a'i e-bostio i ffrind.



## Parti yn y tŷ

Beth am wneud parti bach i bawb yn y tŷ.
Paratoa fwyd parti syml a gemau fel "Charades",
'Mae Seimon yn dweud', pasio'r parsel.
Mwynhewch!



## Gosod bwrdd

Gosoda'r bwrdd ar gyfer swper gyda dy deulu. Fe ddylet ti osod pob lle fel ag y gweli di yn y llun. Amsera dy hun yn gosod y bwrdd. Gallai aelodau eraill o dy deulu geisio ei wneud yn gyflymach.



# Gweddi Greadigol

## Gweddi balŵn

**Bydd angen:** balŵn a phin ffelt
**Beth i'w wneud:**

- Meddylia am y stori ddywedodd Iesu.
  Roedd yna rai pobl wrth eu bodd yn cael mynd i'r wledd.
  Roedd yna rai pobl yn gwneud esgus i beidio â mynd i'r wledd.
- Meddylia am y pethau da y mae Duw yn eu rhoi i ti. Ysgrifenna beth ydyn nhw, neu tynna lun ohonyn nhw ar y falŵn. Dyweda air o ddiolch i Dduw wrth i ti wneud hyn.
- Meddylia am y gwahoddiad mae Iesu yn ei roi i Ti i barti anhygoel Duw yn y nefoedd.
- Ysgrifenna "diolch" ar y falŵn am fod Iesu eisiau bod yn ffrind i ti.
- Efallai dy fod eisiau dweud "sori" am rywbeth wyt ti wedi ei wneud neu ei ddweud.
- Ysgrifenna "sori" ar y falŵn. Dyweda "sori" wrth Dduw wrth i ti ysgrifennu.




## Esgusion

Wyt ti'n gwneud esgusion er mwyn osgoi gwneud pethau rwyt ti'n fod i'w gwneud? Pan fydd rhywun yn gofyn i ti wneud rhywbeth beth fyddi di'n ei ddweud? Dwi'n rhy brysur. Dwi'n gwylio'r teledu. Dwi'n chwarae gêm ar y cyfrifiadur. Neu wyt ti'n dweud y gwnei di rywbeth nes ymlaen?

Yr wythnos hon gofynna i Dduw dy helpu i wneud y pethau mae rhywun wedi gofyn i ti eu gwneud. Meddylia am y stori ddarllenaist ti heddiw. Mae Duw yn gofyn i ti fod yn ffrind iddo. Wnei di ddweud gwnaf?

# Canu

Dewch i'r parti - fydd 'na hwyl a sbri!
Dewch i ddathlu gyda fi.
Anfonodd dyn ei was at ei ffrindiau i'w gwahodd
Ond atebodd pob un…"O! Dwi ddim yn gallu dod."
(Newydd brynu cae, newydd brynu ychen,
newydd briodi)
Roedd y wledd yn barod ond doedd dim gwesteion!

Dewch i'r parti - fydd 'na hwyl a sbri!
Dewch i ddathlu gyda fi.
Anfonodd y dyn ei was at y tlawd ym mhob stryd.
Daeth y bobl gloff a dall, cardotwyr i gyd.
(Wel, dyna neis, do'n i ddim yn disgwyl cael
gwahoddiad)
Roedd gwesteion yn y wledd
ond roedd dal lle ar ôl.



Dewch i'r parti - fydd 'na hwyl a sbri!
Dewch i ddathlu gyda fi.
Anfonodd y dyn ei was reit allan o'r dre'
I ddweud wrth bobl yng nghefn gwlad fod ganddo le.
*(Trip bach i'r dref. Pwy a ŵyr? A bwyd hefyd! Grêt)*
Yn y diwedd cafodd y dyn ei wledd llawn gwesteion.

Dewch i'r parti - fydd 'na hwyl a sbri!
Parti byth bythoedd gyda fi.
Dyma'r gwahoddiad nawr i ni, bob un
Cael perthynas efo Duw trwy Iesu ei hun.
*(Ffrindiau efo Fo nawr
ac am byth. Waw! Ie, plîs)*
Wnewch chi ymuno â'r parti yn y nefoedd?

Gwyliwch y gân hon a chydganu drwy glicio ar https://youtu.be/PQtWi4rwxh4
Os hoffech chi gerddoriaeth (hen nodiant) cysylltwch ag Andy Hughes - Ahughes@saintygymuned.org